**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 28 GORFFENNAF 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: E.V.Latham (Cadeirydd), C.Clement-Williams, D.Jones, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave and M.Harvey

**Swyddogion yn bresennol:**

K.Jones, A.Jarrett, A.D.Thomas, H.Jenkins, C.Griffiths, D.Griffiths, S.Brennan, M.Shaw, C.L.Davies and J.Woodman-Ralph

**Invitees:**

Cynghorydd: S.Rahaman (Gadeirydd craffu)
S. Freeguard (is-gadeirydd craffu)

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd penodi'r Cynghorydd E.V. Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| Y Cyng. C Clement-Williams | Eitem Frys – Cynnig i ddarparu Parcio am Ddim yng Nghanol y Dref ar gyfer Mis Awst 2021. Mae ganddi Drwydded Maes Parcio i Aelodau, ond mae ganddi oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cyng. M Harvey | Eitem Frys – Cynnig i ddarparu Parcio am Ddim yng Nghanol y |

| | |
|---|---|
| | Dref ar gyfer Mis Awst 2021. Mae ganddo Drwydded Maes Parcio i Aelodau, ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| | Eitem 7 ar yr Agenda – Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf 2021/22. Mae'n cael ei gyflogi gan Heddlu De Cymru, ond nid oedd yn teimlo bod ei fudd yn niweidiol. |
| Y Cyng. A.R.Lockyer | Eitem Frys – Ymestyn Trefniadau Ymgeisio am Grantiau'r Trydydd Sector hyd at 2022/23. Mae'n aelod o fwrdd Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc (YMCA) ac yn Ymddiriedolwr Cymdeithas Almshouse.<br><br>Eitem Frys – Cynnig i ddarparu Parcio am Ddim yng Nghanol y Dref ar gyfer Mis Awst 2021. Mae ganddo Drwydded Maes Parcio i Aelodau, ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd P D Richards<br><br><br><br><br>Y Cynghorydd P D Richards | Eitem Frys – Cynnig i ddarparu Parcio am Ddim yng Nghanol y Dref ar gyfer Mis Awst 2021. Mae ganddo Drwydded Maes Parcio i Aelodau, ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.<br>Eitem Frys – Ymestyn Trefniadau Ymgeisio am Grantiau'r Trydydd Sector hyd at 2022/2023. Gan ei fod yn Aelod o Fwrdd Gofal a Thrwsio Gorllewin Morgannwg, ond mae ganddo oddefeb i siarad ond nid i bleidleisio. |
| Y Cyng. A Wingrave | Eitem Frys – Cynnig i ddarparu Parcio Am Ddim yng Nghanol y Dref ar gyfer Mis Awst 2021. Mae ganddo Drwydded Maes Parcio i |

| | |
|---|---|
| | Aelodau, ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cyng. S Rahaman | Eitem Frys – Ymestyn Trefniadau Ymgeisio am Grantiau'r Trydydd Sector hyd at 2022/2023. Gan ei fod yn Ysgrifennydd/Ymddiriedolwr Grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Castell-nedd Port Talbot sy’n fuddiolwr y grant, ond nid oedd yn teimlo bod ei fudd yn niweidiol.<br><br>Eitem Frys – Cynnig i Ddarparu Parcio am Ddim yng Nghanol y Dref ar gyfer mis Awst 2021. Gan fod gan ei deulu fusnes yng nghanol un o’r trefi. Ond roedd yn teimlo bod ei fudd yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar ddechrau'r eitem. |
| Y Cyng. S Freeguard | Eitem Frys - Ymestyn Trefniadau Ymgeisio am Grantiau'r Trydydd Sector hyd at 2022/2023. Gan ei bod yn ymddiriedolwr yn Age Connects. |

3. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y 12fed o Fai, yr 2il o Fehefin a'r 16eg o Fehefin.

4. **<u>BLAENRAGLEN WAITH 2021-22</u>**

Nodi'r Flaenraglen Waith.

5. **<u>ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB A DIWEDDARU 2021/22</u>**

**<u>Penderfyniad:</u>**

Cymeradwyo trosglwyddo'r gyllideb a symud yr arian wrth gefn fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd a'u hargymell i'r cyngor.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I gydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â throsglwyddiadau cyllidebol a cheisiadau wrth gefn a diweddaru amcanestyniadau Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/2022.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

6. **ADRODDIAD MONITRO'R RHAGLEN GYFALAF 2021/22**

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod y rheswm dros y penderfyniad a rhoi'r penderfyniad ar waith wedi'i hepgor o'r adroddiad a ddosbarthwyd. O ganlyniad, rhoddwyd diweddariad llafar i'r aelodau fel y nodir isod.

**Penderfyniadau:**

1.Cymeradwyo’r gyllideb ddiweddaredig arfaethedig ar gyfer 2021/2022, sef cyfanswm o £83.464m, a'i hargymell i'r cyngor.

2.Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â gwariant ar 30 Mehefin 2021.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I gydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â throsglwyddo'r gyllideb, ailbroffilio rhwng blynyddoedd ariannol a diweddaru amcanestyniadau cyllideb y cyngor ar gyfer 2021/2022.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

7. **ADRODDIAD ALLDRO RHEOLI'R TRYSORLYS 2020/21**

**Penderfyniad:**

Nodi perfformiad swyddogaeth rheoli’r trysorlys 2020/21 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, gan gynnwys y dangosyddion y trysorlys a darbodus gwirioneddol 2020/21.

8. **ADRODDIAD MONITRO RHEOLAETH Y TRYSORLYS 2021/22**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

9. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r materion a gynhwysir yng Nghofnodion Rhif 10, 11 a 12 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid eu trafod yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

10. **EXTENSION OF THIRD SECTOR GRANTS APPLICATION ARRANGEMENTS TO 2022/2023**

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r meini prawf canlynol ar gyfer gwahodd ceisiadau am arian a lywodraethir gan Gynllun Grantiau'r Trydydd Sector yn 2022-23:

   a. Gwahodd ceisiadau am 12 mis o gyllid neu lai a ddylai canolbwyntio'n benodol ar weithgareddau a fydd yn helpu i ddatblygu gallu/cydweithio cymunedol ymhellach ac adeiladu ar y camau gweithredu cymunedol sydd wedi cefnogi'r ymateb i bandemig COVID-19.

   b. Dylid gofyn i'r sefydliadau hynny sy'n derbyn cytundebau grant aml-flwyddyn nodi'n glir sut y maent yn bwriadu cefnogi datblygiadau pellach sy'n adeiladu gallu cymunedol.

2. Caiff adolygiad mwy sylfaenol o'r cynllun ei gynnal yn gynnar yn 2022-23.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

1. I sicrhau bod penderfyniadau cyllid a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 mewn perthynas â grantiau a ddyfernir dan Gynllun Grantiau'r Trydydd Sector yn cyd-fynd â blaenoriaethau cyffredinol

y cyngor ac yn adlewyrchu amgylchiadau penodol y sefyllfa ymateb brys i COVID-19.

2. Sicrhau bod cyfle ar ddechrau 2022-23 i ddiwygio'r cynllun i adlewyrchu'r sefyllfa bryd hynny, gan sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn berthnasol wrth gefnogi blaenoriaethau'r cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu perthnasol, caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith (ac felly nid yw'n amodol ar yr weithdrefn galw i mewn o 3 diwrnod).

11. **CYNNIG I DDARPARU PARCIO AM DDIM YNG NGHANOL Y DREF AR GYFER MIS AWST 2021.**

Ailbwysleisiodd y Cynghorydd S Rahaman ei fudd ar y pwynt hwn a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig.

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo parcio am ddim ym meysydd parcio canol y dref ledled Castell-nedd Port Talbot ar gyfer mis Awst 2021.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I arddangos ymrwymiad y cyngor i gefnogi canol ein trefi.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu perthnasol, caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith (ac felly nid yw'n amodol ar yr weithdrefn galw i mewn o 3 diwrnod).

12. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

13. **GROUND LEASE OF LAND AND BUILDINGS AT NEATH ABBEY INDUSTRIAL ESTATE NEATH - PROPOSED PURCHASE OF FREEHOLD REVERSIONARY INTEREST (EXEMPT UNDER PARAGRAPH 14)**

**Penderfyniad:**

Gan roi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig:

1. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio gyflwyno cais ffurfiol ar sail gwybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd ac os yw'n llwyddiannus, cwblhau’r broses o brynu'r tir yn gyfreithlon fel rhydd-ddaliad mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd prynu’r tir fel rhydd-ddaliad yn sicrhau incwm buddsoddi rhent parhaus a hefyd yn diogelu perchnogaeth o'i safleoedd gweithredol yn y dyfodol a chyfleoedd i ddatblygu ac adfywio'r tir yn y dyfodol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu perthnasol, caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith (ac felly nid yw'n amodol ar yr weithdrefn galw i mewn o 3 diwrnod).

**CADEIRYDD**